

Datganiad gan y Comisiynydd Safonau – Cyhoeddwyd ar 16 Hydref 2018

Rwyf wedi cael ceisiadau i ailystyried fy mhenderfyniad ar y gŵyn am fideo a gyhoeddwyd gan Gareth Bennett AC ynghylch Joyce Watson AC. Nid yw'r weithdrefn a bennwyd gan y Cynulliad yn darparu ar gyfer ailystyried. Fodd bynnag, mae pob un o'r tri chais yn cynnwys cwyn am y fideo ac rwyf wedi penderfynu trin y ceisiadau hyn fel cwynion newydd a byddant, felly, yn cael eu harchwilio.

O ystyried fy mod eisoes wedi ystyried y mater hwn, byddai'n well bod Comisiynydd Dros Dro yn ystyried y materion o'r newydd. Felly, rwyf wedi gofyn i'r Prif Weithredwr ofyn am gymeradwyaeth y Cynulliad i benodi Comisiynydd Dros Dro ar gyfer Safonau i ystyried y cwynion newydd hyn. Mae hyn yn unol â'r gweithdrefnau a ddarperir ym Mesur 2009.

Rwy'n gweithio gyda'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad a'r Prif Weithredwr i ehangu'r arbenigedd sydd ar gael i swyddfa'r Comisiynydd Safonau gan fy mod yn ystyried amrywiaeth eang o gwynion. Mae alinio Polisi Urddas a Pharch y Cynulliad gyda'r weithdrefn gwyno bresennol yn rhan bwysig a pharhaus o'm rôl.